**Barry Davies LL.B (Hons)**
**Solicitor/Cyfreithiwr**
*Head of Legal and Democratic Services*
Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd

I: Cynghorwyr: Nancy Matthews, N. Phillips, Michael Priestly, Eryl Williams, Arwel Pierce, W.G. Roberts, Sharon Frobisher, Meirion Hughes and Alex Aldridge

CS/NG

08 Mawrth 2012

Nicola Gittins

01352 702345

nicola.gittins@flintshire.gov.uk

Annwyl Syr / Fadam

Cynhelir **CYFARFOD CYD-BWYLLGOR GWASTRAFF GWEDDILLIOL GOGLEDD CYMRU** yn **SIAMBR Y CYNGOR, BODLONDEB, CONWY, LL32 8DU** ar **DYDD GWENER, 16 MAWRTH 2012** am **10.30 y.b.** i drafod y materion canlynol.

Yr eiddoch yn gywir

Rheolwr Democratiaeth a Rheolaeth

**A G E N D A**

1. **YMDDIHEURIADAU**

2. **DATGANIAD O DDIDDORDEB**

3. **CYMERADWYO COFNODION BLAENOROL**

County Hall, Mold. CH7 6NA
Tel. 01352 702400 DX 708591 Mold 4
www.flintshire.gov.uk
Neuadd y Sir, Yr Wyddgrug. CH7 6NR
Ffôn 01352 702400 DX 708591 Mold 4
www.siryfflint.gov.uk
The Council welcomes correspondence in Welsh or English
Mae'r Cyngor yn croesawau gohebiaeth yn y Cymraeg neu'r Saesneg

4. **MATERION YN CODI O'R CYFARFOD BLAENOROL**

5. **ADRODDIAD CYNNYDD (ADRODDIAD SO)**

6. **RIR – DIWEDDARIAD STATWS RISG (ADRODDIAD SP)**

7. **DIWEDDARIAD CYFATHREBU (ADRODDIAD SO)**

8. **CYFARWYDDYD HIERARCHAETH GWASTRAFF GAN LLYWODRAETH CYMRU (ADRODDIAD SP)**

**DEDDF LLYWODRAETH LEOL (MYNEDIAD AT WYBODAETH) 1985 – I GYSIDRO EITHRIO'R WASG A'R CYHOEDD**
Mae'r eitemau isod yn cael ei gysidro fel eitem i'w eithrio dan paragraff 14 o Rhan 1 o Atodlen 12A o Ddeddf Llywodraeth Lleol 1972 (fel a ddiwygwyd)

9. **ASESIAD FFORDD – RHEILFFORDD (ADRODDIAD SP)**

10. **UNRHYW FATER ARALL**

# CYD BWYLLGOR GWASTRAFF GWEDDILLIOL GOGLEDD CYMRU

Cofnodion cyfarfod y Cyd Bwyllgor a gynhaliwyd yn Neuadd y Sir, yr Wyddgrug ar ddydd Gwener, 27 Ionawr , 2012.

**PRESENNOL: Cynghorydd Eryl Williams (Cadeirydd) – Cyngor Sir Ddinbych**

Cynghorydd Neville Phillips – Cyngor Sir y Fflint

Cynghorydd Arwel Pierce – Cyngor Gwynedd

Cynghorydd Sharon Frobisher – Cyngor Sir Ddinbych

Cynghorydd Mike Priestley – Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy

Cynghorydd Meirion Hughes – Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy

Cynghorydd Bob Parry - Cyngor Sir Ynys Môn

Cynghorydd W.J. Chorlton – Cyngor Sir Ynys Môn

Alex Aldridge – Comisiynydd Cyngor Sir Ynys Môn

**HEFYD YN BRESENNOL:**

**Cyngor Sir y Fflint**

Mr. Carl Longland, Ms. Kerry Feather, Ms. Louise Pedreschi a Ms. Ceri Owen

**Cyngor Sir Ddinbych**

Mr. Steve Parker

**Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy**

Mr. Andrew Kirkham

**Cyngor Gwynedd**

Mr. Dilwyn Williams

**Cyngor Sir Ynys Môn**

Mr. Dewi Williams

**Prosiect Triniaeth Gwastraff Gweddilliol Gogledd Cymru**

Mr. Stephen Penny, Mr. Steffan Owen a Ms. Karen Powell

**Partnerships UK**

Mr. Huw Roberts

**YMDDIHEURIADAU**

Cynghorydd Nancy Matthews a Mr. Colin Everett (Cyngor Sir y Fflint)

Adroddodd Carl Longland bod y Cynghorydd Nancy Matthews wedi disgyn yn ddiweddar ac wedi torri ei braich. Gofynnodd y Cadeirydd am i ddymuniadau da y Pwyllgor gael eu hanfon ati.

## 1. DATGAN DIDDORDEB

Ni chafwyd unrhyw ddatganiadau o ddiddordeb oddi wrth unrhyw Aelod na Swyddog a oedd yn bresennol.

## 2. ETHOL CADEIRYDD AC IS-GADEIRYDD I'R ISBWYLLGOR

Adroddodd y Cadeirydd y byddai'r eitem hon yn cael ei gohirio a'i chynnwys ar agenda'r cyfarfod nesaf a drefnwyd ar 16 Mawrth, 2012.

**PENDERFYNWYD:**

Gohirio'r eitem hon tan y cyfarfod nesaf a drefnwyd ar gyfer 16 Mawrth, 2012

## 3. COFNODION

Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 6 Hydref, 2011.

**PENDERFYNWYD**

Bod y cofnodion yn cael eu cymeradwyo fel cofnod cywir.

## 4. MATERION YN CODI O'R CYFARFOD BLAENOROL

Nid oedd unrhyw faterion yn codi.

## 5. ADRODDIAD CYNNYDD

Cyflwynodd y Rheolwr Prosiect yr adroddiad cynnydd a dywedodd bod y prosiect yn mynd yn ei flaen yn dda. Eglurodd bod deialog wedi bod yn parhau gyda'r tri chyfranogydd ar faterion cyfreithiol, ariannol a thechnegol.

Dywedodd fod cyfarfod cyhoeddus wedi ei gynnal yn ddiweddar, a oedd wedi ei drefnu dan ofal Cyngor Tref Cei Conna, i wrthwynebu’r safle ar Barc Diwydiannol Glannau Dyfrdwy ar gyfer llosgi. Roedd 100 o bobl yn bresennol, ac anerchodd Cyfeillion y Ddaear Merthyr Tudful y cyfarfod. Roedd deiseb hefyd wedi ei lansio a oedd yn cynnwys llofnodwyr o dros y ffin yn Lloegr. Yn ogystal â hyn, roedd rhybudd o gynnig a oedd yn mynegi pryder ynglŷn ag unrhyw gais i leoli gwaith trin gwastraff gweddilliol yn ardal Glannau Dyfrdwy wedi cael ei gyflwyno i gyfarfod nesaf Cyngor y Fflint, sydd wedi’i drefnu ar gyfer 31 Ionawr, 2012. Cylchwyd copïau o'r rhybudd o gynnig yn y cyfarfod.

Mewn ymateb i sylwadau ar gyfathrebu â'r cyhoedd, eglurodd y Cyfarwyddwr Prosiect fod gwybodaeth bellach ynghylch safleoedd a thechnoleg yn fater masnachol sensitif yn ystod y broses gaffael. Byddai manylion y cynigion yn cael eu rhyddhau’n ddiweddarach yn y broses gaffael gyda chytundeb y cynigwyr sy'n weddill, er mwyn ymgysylltu â'r cyhoedd

Yn dilyn trafodaeth, cytunwyd y byddai'r Cyfarwyddwr y Prosiect yn bresennol yng nghyfarfod Cyngor Sir y Fflint ar 31 Ionawr, 2012 er mwyn ymateb i unrhyw faterion technegol a godwyd gan yr Aelodau.

Adroddodd y Cyfarwyddwr y Prosiect nad oedd unrhyw faterion o bwys i’w nodi, a rhoddodd ddiweddariad yng nghyswllt mân faterion mewn perthynas â gweithgaredd y prosiect fel a ganlyn: -

- ID 72 – y datrysiadau ISDS i'w cyflwyno gan y cyfranogwyr. Yn dilyn adborth gan gynigwyr ac ymgynghorwyr y dyddiad wedi cael ei addasu i 27 Ionawr, 2012.
- ID 73 – Asesiad o gyflwyniadau ISDS. Byddai gwybodaeth allweddol yn cael ei darparu i Swyddogion Cyllid Technegol a Chyfreithiol cyn datblygu argymhellion i'r Bwrdd Prosiect a'r Cydbwyllgor. Roedd rhagor o fanylion wedi'u hamlinellu yn Atodiad 1 yr adroddiad.
- ID 91 – Ceisio cyngor cyfreithiol yn dilyn llythyrau a dderbyniwyd am bresenoldeb un o'r ymgeiswyr yn y broses gaffael. Ceisiwyd a chafwyd cyngor cyfreithiol ac roedd y llythyrau wedi derbyn atebion, fodd bynnag, daeth ymateb pellach i law. Mae hwn wedi'i anfon at uned gaffael Cyngor Sir y Fflint i ymdrin ag ef, ac i ail-gadarnhau'r cyngor cyfreithiol.

Mynegodd un o'r Aelodau bryder ynghylch yr amserlen ar gyfer y penderfyniad ar y ffordd/ rheilffordd, nad oedd yn teimlo yn caniatáu digon o amser i drafod y mater gyda chyd Aelodau. Mewn ymateb, dywedodd Cyfarwyddwr y Prosiect bod gan y Cydbwyllgor yr awdurdod dirprwyedig priodol i wneud penderfyniadau o'r fath fel y nodir yn Cytundeb Rhyng-Awdurdod cytunedig. Byddai cyfle i bob awdurdod ganfasio barn eu Haelodau ac adrodd yn ôl i'r Cydbwyllgor.

**PENDERFYNWYD**

Nodi'r adroddiad.

## 6. RIR – DIWEDDARIAD STATWS RISG

Cyflwynodd Cyfarwyddwr y Prosiect yr adroddiad Cofrestr Risg a oedd yn tynnu sylw at rai o'r newidiadau i'r gofrestr risg a wnaed i adlewyrchu'r ddealltwriaeth gyfredol o risgiau a mesurau lliniaru a oedd ar waith.

Mae mater diweddar y Cynllun Sector Casgliadau, Seilwaith a Marchnadoedd (CIM) drafft gan Lywodraeth Cymru (LlC) wedi arwain at ansicrwydd o ran statws y Cynlluniau Gwastraff Rhanbarthol presennol. Mae'r sylwebaeth risg wedi cael ei haddasu i adlewyrchu'r ffaith bod y tîm prosiect yn deall bod y CIM wedi'i ohirio tan yn gynnar yn 2012 er mwyn caniatáu mewnbwn pellach gan dîm cynllunio LlC. Roedd yna hefyd newid i'r risg bresennol CO4 (pwysau gan grwpiau lobïo/ y cyhoedd yn erbyn y datrysiad a ffefrir a'r lleoliad) i adlewyrchu'r ffaith bod ymgyrchwyr cenedlaethol yn ymgysylltu gyda Chynghorau Cymuned lleol a Chymunedau lleol mewn ymgais i adeiladu gwrthwynebiad i ddatrysiadau posib yng Nglannau Dyfrdwy.

Gwnaeth sylwadau ar risg presennol F13 (cyllid LlC). Roedd LlC wedi nodi petai unrhyw ddatrysiad a oedd yn cynnwys adfer ynni yn methu â chyflawni (neu'n ddiweddarach yn colli) statws effeithlonrwydd ynni A1, gallai fod risg o golli cymorth ariannol LlC. Roedd yr holl gyfranogwyr wedi cadarnhau y byddai eu datrysiadau'n bodloni A1 yn eu cyflwyniadau ISOS, ond roedd y tîm technegol yn edrych ar y mater hwn i weld pa mor debygol oedd hi y gallai datrysiad ddisgyn o dan A1 a beth fyddai'r amgylchiadau. Nid yw'r lefel risg wedi cael ei newid ar hyn o bryd.

**PENDERFYNWYD**

Nodi'r Gofrestr Risg wedi'i diweddaru ar gyfer y prosiect.

6. **DIWEDDARIAD CYFATHREBU A CHYFLWYNIAD GAN Y RHEOLWR PROSIECT**

Rhoddodd y Rheolwr Prosiect ddiweddariad i Aelodau ar faterion yn ymwneud â chyfathrebu NWRWTP.

Roedd cyfarfod wedi cael ei gynnal gan y Tîm Prosiect gydag ymgynghorwyr technegol a chyfathrebu i gynllunio cyfathrebu ac ymgysylltu ymlaen ar gyfer y 12 mis dilynol. Amlinellwyd manylion y cynllun cyfathrebu a oedd wedi ei lunio yn yr adroddiad.

Yn dilyn trafodaeth, cytunwyd y byddai angen cyhoeddi datganiad i'r wasg cyn gynted â phosib ar ôl 16 Mawrth, 2012, yn dilyn penderfyniad y Cydbwyllgor ar y mater ffordd/rheilffordd.

Rhoddodd y Rheolwr Prosiect gyflwyniad i'r Cydbwyllgor a oedd yn amlinellu canlyniadau'r ymarfer ymgynghori ac arolwg dros y ffôn.

Yn dilyn trafodaeth, cadarnhaodd y Rheolwr Prosiect y byddai'n edrych eto ar yr ymatebion annilys i geisio asesu beth fyddai eu barn wedi bod. Byddai hyn yn cael ei adrodd yn ôl i'r Cydbwyllgor yn ei gyfarfod nesaf.

Gofynnodd Aelod p'un a fyddai'r ymarferiad ymgynghori arall yn cael ei gynnal gyda'r cyhoedd sy'n byw yng nghyffiniau'r safle dewisol. Awgrymodd Aelod arall roi adnoddau o'r neilltu i ymgymryd â gwaith mynd o ddrws i ddrws gyda'r cyhoedd sy'n byw yng nghyffiniau'r safle arfaethedig i sicrhau bod eu pryderon yn cael eu lliniaru.

**PENDERFYNWYD**

Nodi'r Diweddariad Cyfathrebu.

**10. UNRHYW FATER ARALL**

Dim.

**EITEM AGENDA RHIF 5**

## ADRODDIAD CYNNYDD CYDBWYLLGOR GWASTRAFF GWEDDILLIOL GOGLEDD CYMRU

## CYDBWYLLGOR GWASTRAFF GWEDDILLIOL GOGLEDD CYMRU

**Dyddiad: 16 Mawrth 2012**

**Cyfnod: 19 Ionawr 2012 i 7 Mawrth 2012**

## CRYNODEB Y PROSIECT

I gaffael datrysiad rheoli gwastraff cynaliadwy i'r 5 awdurdod lleol yng Ngogledd Cymru (Conwy, Sir Ddinbych, Sir y Fflint, Gwynedd ac Ynys Môn) a fydd yn cynorthwyo â lleihau allyriadau nwyon tŷ gwydr o dirlenwi ac yn lleihau'r tunelledd o weddillion gwastraff a anfonir i dirlenwi a thrwy hynny sicrhau fod yr awdurdodau'n osgoi'r cosbau tordyletswydd Cynllun Lwfans Tirlenwi (LAS) a chwrdd â thargedau'r Strategaeth Wastraff Genedlaethol.

## STATWS Y PROSIECT

| **Statws Cyffredinol y Prosiect** | |
|---|---|
| Ambr | Derbyniwyd cynnigion manwl (ISDS) gan yr ymgeiswyr ar 27 Ionawr 2012 yn unol ac amserlen y broses pwrcasu. Nid yw'r cynnigion yma yn cael ei werthuso, ond mae'r ymgynghorwyr chyfreithiol, technegol ac ariannol wedi cysidro'r elfennau perthnasol ohonynt er mwyn gwneud cymhariaeth generig o'r datrysiadau ffordd a rheilffordd.<br><br>Fel a nodwyd yn flaenorol, dim ond yr ymgynghorwyr sydd wedi gweld y cynnigion, a ddarperir yr wybodaeth i'r tîm prosiect ac yr awdurdodau yn ddienw.<br><br>Mae storïau yn parhau yn yr wasg yn ardal Sir y Fflint, gyda'r storïau yn awgrymu bod y deiseb sydd yn gwrthwynebu'r prosiect wedi derbyn 6,000 o lofnodion (mae hyn yn cynnwys llofnodion o ardaloedd cyfagos o Loegr). |

| Statws Cyllideb | |
|---|---|
| Gwyrdd | Gwir wariant y prosiect am y flwyddyn ariannol yma hyd at 31 Rhagfyr 2011 yw £889,133.<br><br>Proffil gwariant am yr un cofnod yw £994,821 (tan broffil o £105,688). |

| **Statws** | **Ystyr** |
|---|---|
| Gwyrdd | Nid oes unrhyw broblemau; popeth yn mynd ymlaen yn dda ac i'r cynllun |
| Ambr | Mae rhai problemau bach / llai. Mae angen gweithredu mewn rhai meysydd ond mae rhannau eraill yn bwrw ymlaen yn foddhaol |
| Coch | Mae problemau sylweddol a rhai brys ac mae angen gweithredu pendant. |

**DIWEDDARIAD PROSIECT** – Gweithgareddau sydd i'w cwblhau o 18fed Ionawr 2012 i 7fed Mawrth 2012 (a gweithredoedd tymor hirach sydd wedi'u lliwoleuo).

| **ID** | **Gweithgaredd** | **Statws RAG** | **Sylwadau** | **Rhagolwg** | **Gwirioneddol** |
|---|---|---|---|---|---|
| 72 | Datrysiadau ISDS i'w cyflwyno gan gyfranogwyr | Ambr | Cynnigion wedi'i dderbyn | 27 Ionawr 2012 | Wedi'i cwblhau |
| 73 | Asesiad o gyflwyniadau ISDS | Ambr | Adroddiadau wedi'i dderbyn gan yr ymgynghorwyr cyfreithiol, ariannol a thechnegol a'r tîm prosiect wedi creu prif adroddiad gyda casgliadau cyffredinol (gweler eitem 9 ar yr agenda) | Chwefror 2012 | Wedi'i cwblhau |
| 74 | Cyfranogwyr yn cael gwybod am benderfyniadau'r bartneriaeth am ffordd / ffordd-rheilffordd, a'u gwahodd i gyflwyno mireiniadau i'w cyflwyniadau | Ambr | | Canol Mawrth 2012 | |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | ISDS o ystyried y penderfyniad | | | | |
| 75 | Cyflwyniad o ISDS wedi'i Fireinio gan gyfranogwyr | Ambr | | Ebrill / Mai 2012 | |
| 76 | Gwerthuso cyflwyniadau ISDS wedi'i Fireinio | Ambr | | Mai / Mehefin 2012 | |
| 78 | Yr ail IAA (IAA2) i'w ddechrau | Gwyrdd | Hyn i ddechrau unwaith y bydd datrysiadau ISDS yn wybyddus (a'r strwythurau contract tebygol yn fwy pendant).. | Tachwedd 2011 | |
| 82 | Dadansoddiad llawn o'r ymatebion ymgynghorol | Gwyrdd | Cyflwyniad wedi'i rhoi i'r Cyd Bwyllgor ym mis Ionawr 2012 | Hydref 2011 | Wedi'i cwblhau |
| 83 | Adrodd yn ôl i'r cyhoedd ac atebwyr gyda canlyniadau'r ymgynghoriad | Gwyrdd | Hwn i'w wneud hwyrach ymlaen yn y broses yn dilyn trafodaethau yng Nghyd Bwyllgor Ionawr 2012 | I'w gadarnhau | |
| 84 | Cynllun ar gyfer ymgysylltu a chyfathrebu am y 12 mis nesaf | Gwyrdd | Cynllun wedi'i cytuno gyda'r Bwrdd Prosiect. | 21 Hydref 2011 | Wedi'i cwblhau |
| 87 | Timau ariannol a thechnegol i'w ymgynghori ar yr asesiad ffordd / rheilffordd cyn y Cyd-Bwylgor | Gwyrdd | Cyfarfod wedi ei gynnal gyda sywddogion technegol ar 22 Chwefror i drafod elfennau thechnegol A cyfarfod wedi ei gynnal ar 29 Chwefror gyda'r swyddogion ariannol i drafod elfennau ariannol. | Chwefror 2012 | Wedi'i cwblhau |
| 90 | Asesiad ffordd / rheilffordd i'w gyflwyno i'r Bwrdd Prosiect | Gwyrdd | Gweler eitem agenda rhif 9 | Chwefror / Mawrth 2012 | Wedi'i cwblhau |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | a'r Cyd-Bwylgor | | | | |
| 91 | Derbyn cyngor chyfreithiol yn dilyn llythyrau a dderbyniwyd ynglyn a un o'r ymgeiswyr yn y broses caffael | Gwyrdd | Llythyr wedi ysgifennu i'r ymgeisydd. Disgwyl ymateb. | Chwefror 2012 | |
| 92 | Paratoi datganiad i'r wasg, a'r proses i hysbysu'r cyhoedd o'r penderfyniad ffordd/ rheilffordd | Gwyrdd | Gweler eitem agenda rhif 7 | Canol / diwedd Mawrth 2012 | |
| 93 | Paratoi pecyn gwybodaeth cynhwysfawr i Aelodau a'r cyhoedd i'w ddefnyddio ar yr adeg priodol i drafod technoleg a safle cynigion | Gwyrdd | Drafft cynar wedi'i dderbyn, Tîm Prosiect yn adolygu ac addasu ar hyn o bryd. Gwaith yn parhau. | Mehefin 2012 | |

**RISGIAU ALLWEDDOL** – Gweler eitem 6 ar yr agenda hon.

PTGGGC
Prosiect Trin Gwastraff Gweddilliol Gogledd Cymru

**EITEM AGENDA RHIF: 6**

**ADRODDIAD I:** **CYD BWYLLGOR PTGGGC**

**DYDDIAD:** **16 MAWRTH 2012**

**ADRODDIAD GAN:** **Y CYFARWYDDWR PROSIECT**

**PWNC: :** **ADRODDIAD Y GOFRESTR RISG**

## 1. PWRPAS YR ADRODDIAD

1.1. Mae aelodau o Gyd Bwyllgor NWRWTP wedi gwneud cais i dderbyn diweddariad o'r gofrestr risg ym mhob cyfarfod o'r Cyd Bwyllgor.

1.2. Bydd yr adroddiad hwn yn tynnu sylw at rai o'r diwygiadau i'r gofrestr risg sydd wedi'u gwneud i adlewyrchu'r ddealltwriaeth bresennol o risgiau a'r mesurau lliniaru sydd yn eu lle.

## 2. CEFNDIR

2.1. Bydd angen diweddaru'r Gofrestr Risg yn barhaus drwy gydol y prosiect.

## 3. YSTYRIAETHAU

3.1. Nid oes risg ychwanegol wedi ei adnadbod yn y cyfnod adrodd yma.

3.2. Yn y cyfod adrodd yma mae risg PO2 – (Newid i bolisi ag amcanion amgylcheddol LIC) wedi newid o ganlyniad cyhoeddiad diweddar canllawiau hierarchaeth wastraff newydd gan LIC (gweler eitem ar wahan ar yr agenda yma). Newidir tebygolrwydd o'r prosiect yn cael ei brofi i fod yn amhriodol i lawr o 4 i 3.

3.3. Mae'r 8 risg Uchaf (ar ôl gosod rheolaethau yn eu lle) yn cael eu dangos yn atodiad 1.

3.4. Dangosir y newidiadau yn y cyfnod hwn yn atodiad 2

3.5. Bydd y gofrestr risg yn parhau i gael ei hadolygu gan y Cyfarwyddwr Prosiect a'i hadrodd i'r Cyd Bwyllgor mewn cyfarfodydd yn y dyfodolMae'r 8 risg uchaf

## 4. ARGYMHELLION

4.1. Bod y Cyd Bwyllgor yn nodi diweddariad y gofrestr risg ar gyfer y prosiect.

## 5.00 GOBLYGIADAU ARIANNOL

5.01 Amherthnasol

## 5. EFFAITH GWRTH DLODI

5.1. Dim

## 6. EFFAITH AMGYLCHEDDOL

6.1. Amherthnasol

## 7. EFFAITH CYDRADDOLDEB

7.1. Amherthnasol

## 8. GOBLYGIADAU PERSONÉL

8.1. Amherthnasol

## 9. ANGEN YMGYNGHORIAD

9.1. Amherthnasol

## 10. YMGYNGHORIAD WEDI'I GYNNAL

10.1. Amherthnasol

## DEDDF LLYWODRAETH LEOL (MYNEDIAD AT WYBODAETH) 1985

**Dogfennau cefndir:**

Dim

**Swyddog Cyswllt:** Stephen Penny NWRWTP

# Atodiad 1 Prif risgiau a materion (coch)

| ID | Risk / Issue (i.e.: Threat to the Project) | Consequence | Current Assessment: Impact | Current Assessment: L'hood | Current Assessment: Overall | How the risk will be managed and controlled: Already in Place | How the risk will be managed and controlled: Not in Place (Proposed) | Residual Risk: Impact | Residual Risk: L'hood | Residual Risk: Overall | Additional explanatory notes |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Policy & regulatory Risk – Change in WG objectives / regulations** | | | | | | | | | | | |
| PO2 | WG Environmental policy and objectives change | Project is now inappropriate | 4 | 5 | 20 | Keep in close contact with WG to ensure potential policy changes that may impact on the project are identified early. The Project team have developed and submitted a partnership consultation response (approved by the PB and Joint Committee) highlighting the potential impact of such a target on the project and to ensure WG addresses how any such target is related to potential household numbers of population growth rates that authorities may be subject to in future. | | 4 | 3 | 12 | WG have indicated in the finalMunicipal Sector Plan (MSP) that they may adopt a waste minimisation target for MSW with a negative growth rate (reduction) of -1.2% pa. The WG MSP does not take any account of individual or partner authority HH or population growth rates. The Partnership has however received guidance from WG that the Partnership is free to make its own assessments about future waste arisings and as a result planning risk is now moderated. WG has now published guidance on the Waste Heirarchy. This is viewed by the project team as helpfull and will enable the Partnership to demonstrate how any solution that comes forward ranks in the waste heirarchy. |
| **Communication & stakeholders – failure to proactively engage with key stake holders leading to delays and lack of public support for the proposed solution.** | | | | | | | | | | | |
| CO4 | Pressure from lobby groups/public against the preferred solution and location. | Alternative solution/site has to be sought, increased project development costs, delays to project delivery programme, excessive LAS costs, impact on Partner Councils reputation | 4 | 5 | 20 | Communication and Engagement Strategy drafted and agreed in draft form by Communication Officer group. To be "live" document and therefore updated when necessary. | Alternative site work will continue during early stages of procurement process. | 4 | 4 | 16 | National campaigners' engaging with local community councils and local communities in attempt to build opposition to potential solutions. |
| **Planning and permitting -ability to secure successful planning and permitting outcome for solution** | | | | | | | | | | | |
| PS5 | Suitable sites are not in council ownership to support development of the solution | Project delayed whilst suitable sites are secured | 5 | 3 | **15** | Project team are identifying sites that could be suitable for location of both the waste transfer stations and residual waste treatment facility(s) | Complete negotiations with land owners of (further) additional sites identified as potentially suitable for location of facilities with the aim of securing options/ heads of terms for sites. | 5 | 3 | 15 | |

# Prif risgiau a materion (coch) (parhad)

| | | | Current Assessment | | | How the risk will be managed and controlled | | Residual Risk | | | Additional explanatory notes |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| ID | Risk / Issue (i.e.: Threat to the Project) | Consequence | Impact | L'hood | Overall | Already in Place | Not in Place (Proposed) | Impact | L'hood | Overall | |
| **Finance & Affordability** | | | | | | | | | | | |
| F15 | Partner authorities fail to make financial plans to support additional recycling and composting services to meet "front end" increased recycling levels that are required | Failure to meet WG "front end" recycling and composting targets with increased residual waste arisings as a result. | 4 | 4 | 16 | Partner authorities to develop long term funding plans to support enhanced front end recycling and composting services. | Partner Authorities | 4 | 3 | 12 | WG are encouraging authorities in Wales to enter into a "change programme" where WG will offer assistance to Las to work together and improve "front end" recycling and collections services. |
| **Procurement Strategy and Process** | | | | | | | | | | | |
| P13 | Technological solutions offered are not commissionable within LAS infraction timescales | LA's face infraction fines for additional landfill above allowance | 4 | 4 | 16 | OBC modelling has shown that each partner authoirty can meet LAS allowances if they increase "front end" recycling and composting" and the project is deliverd to timetable. Any underperformacne in this "front end" recycling and composting are outside the scope of this project and any subsequent LAS liabilities will lie with the invidivual partner authorities. See also risk W1 | Procurment process to ensure that is dlievred ina timley manner with the risk of late delivery of the residual waste treatemtn service minmised. | 4 | 3 | 12 | |
| **Planning and permitting -ability to secure successful planning and permitting outcome for solution** | | | | | | | | | | | |
| PS14 | The recent issue of the draft Collections, Infrastructure and Markets Sector Plan (CIM) by WG has led to uncertaninty as to the status of the existing Regional Waste Plan (RWP). Thus the RWP may be given reduced weight in determination of a planning application for waste facilities. A policy vaccum may therefore exist if this is not addressed by WG. | Unsuccessfull planning application | 4 | 4 | 16 | Project team and north wales regional waste planning team engaging with WG on this issue to ensure that the final issued version of Collections, Infrastructure and Markets Sector Plan (CIM) does not leave a planning "policy vacuum". Regional Planing team and WG planing teams engaged with WG Waste Policy section to seek required ammendments to draft CIM | | 4 | 3 | 12 | WG's published draft Collections, Infrastructure and Markets Sector Plan (CIM) indicates that RWP's will be replaced but with no indication as to timetable for replacement. The Project team understand that the CIM's pubilciation is now delayed until early 2012. |
| **Performance** | | | | | | | | | | | |
| PE1 | Market/outlet is not available for outputs from the facility(s) | Increased project operational costs, increase in demand for landfill void | 4 | 4 | 16 | Ensure market deliverability demonstrated as part of procurement evaluation process. | | 4 | 3 | 12 | |

# Atodiad 2 Newidiadau y cyfnod hwn

| IDENTIFYING THE RISK or ISSUE | | | | | | MANAGING THE RISK or ISSUE | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | Current Assessment | | | How the risk will be managed and controlled | | | | Residual risk | | | | | | Additional explanatory notes |
| ID | Risk / Issue (i.e.: Threat to the Project) | Consequence | Impact | L'hood | Overall | Already in Place | Who is Managing | Not in Place (Proposed) | Who will Manage | Impact | L'hood | Overall | Impln Date | Review Date | Closure Date | |
| PO2 | WG Environmental policy and objectives change | Project is now inappropriate | 4 | 5 | 20 | Keep in close contact with WG to ensure potential policy changes that may impact on the project are identified early. The Project team have developed and submitted a partnership consultation response (approved by the PB and Joint Committee) highlighting the potential impact of such a target on the project and to ensure WG addresses how any such target is related to potential household numbers of population growth rates that authorities may be subject to in future. | PD | | | 4 | 3 | 12 | Ongoing | Feb-12 | | WG have indicated in the finalMunicipal Sector Plan (MSP) that they may adopt a waste minimisation target for MSW with a negative growth rate (reduction) of -1.2% pa. The WG MSP does not take any account of individual or partner authority HH or population growth rates. The Partnership has however received guidance from WG that the Partnership is free to make its own assessments about future waste arisings and as a result planning risk is now moderated. WG has now published guidance on the Waste Heirarchy. This is viewed by the project team as helpfull and will enable the Partnership to demonstrate how any solution that comes forward ranks in the waste heirarchy. |

**EITEM AGENDA RHIF: 7**

| | |
|---|---|
| **ADRODDIAD I:** | **CYD-BWYLLGOR PROSIECT PTGGGC** |
| **DYDDIAD:** | **16 MAWRTH 2012** |
| **ADRODDIAD GAN:** | **Y RHEOLWR PROSIECT** |
| **PWNC:** | **DIWEDDARIAD CYFATHREBU** |

## 1. PWRPAS YR ADRODDIAD

1.1. I ddiweddaru'r Bwrdd Prosiect am faterion cyfathrebu ynglŷn â Phrosiect Trin Gwastraff Gweddilliol Gogledd Cymru. (PTGGGC).

## 2. CEFNDIR

2.1. Mae'r Bwrdd Prosiect wedi gofyn am ddiweddariadau rheolaidd ar faterion cyfathrebu sy'n ymwneud â PTGGGC. Mae'r adroddiad hwn yn darparu diweddariad ar gynnydd hyn yma.

## 3. YSTYRIAETHAU

3.1. Sylw gan y Cyfryngau

Mae'r mater yn parhau i gael sylw yn y cyfryngau yn y wasg yn Sir y Fflint, gydag adroddiadau bellach yn awgrymu bod 6,000 o lofnodion wedi cael eu derbyn ar y ddeiseb yn gwrthwynebu'r prosiect, sy'n cynnwys llofnodion o ardaloedd cyfagos yn Lloegr. Gweler enghraifft yn Atodiad 1 isod. Bu hefyd newyddion fod rhywfaint o sylw ar wefan BBC Cymru Gogledd Ddwyrain Cymru newyddion, gweler Atodiad 2 isod.

3.2. Cysylltiadau Cyfryngau a chysylltiadau Rhanddeiliaid

3.2.1. Yn unol â'r cynllun cyfathrebu a amlinellwyd yng nghyfarfod diwethaf y Bwrdd Prosiect ar 9 Ionawr 2012 ac a drafodwyd yn y Cydbwyllgor ar 27 Ionawr 2012, mae'r Tîm Prosiect a'r ymgynghorwyr yn paratoi ar gyfer cysylltiadau gyda'r cyfryngau a rhanddeiliaid yng nghyswllt canlyniadau'r ymarfer ymgynghori a'r arolwg ffôn, a chanlyniad y penderfyniad ffordd / rheilffordd, yn benodol: -

a) Adroddiad cryno ar ganlyniadau'r ymgynghoriad
b) Datganiad i'r wasg ar ganlyniad y penderfyniad rheilffordd/ ffordd
c) Cylchlythyr rhanddeiliaid gyda'r uchod
d) Cynllunio'r broses o wneud y cyhoeddiad ynglŷn â'r ddau gynigydd sy'n symud ymlaen yn y broses gaffael a'r safle a

thechnoleg a gynigwyd (e.e. briffio'r cyfryngau, cylchlythyr ayb).

e) Pecyn gwybodaeth cynhwysfawr i'w anfon ar yr adeg honno - mae hyn i gynnwys unrhyw wybodaeth ategol y mae'r ymgeiswyr yn cytuno i'w rhyddhau.

f) Bydd pwyntiau d) ac e) uchod yn cael eu trafod yn y Bwrdd Prosiect

3.2.2. Cafwyd peth trafodaeth ynghylch yr amseriad priodol i ymgysylltu â'r cyfryngau a rhanddeiliaid ar yr eitemau uchod o ystyried agosrwydd at yr etholiadau llywodraeth leol. Mae'r Tîm Prosiect yn teimlo'r mwyaf rhagweithiol y gall y prosiect fod o ran ymgysylltu â'r cyfryngau, y mwyaf buddiol fydd hynny, fodd bynnag, mae'n amlwg y gall agosrwydd at yr etholiadau olygu gwahardd datganiadau i'r wasg o'r fath yn ystod y rhan olaf o fis Mawrth 2012 (mae Purdah yn dechrau ar 20 Mawrth 2012 yn Sir y Fflint).

3.2.3. Fe ofynwyd am farn y Bwrdd Prosiect mewn perthynas ac amseru'r cyhoeddiad y penderfyniad ffordd / rheilffordd. Fe nodwyd nifer o opsiynau (gweler isod) ar y rhagdybiaeth bod penderfyniad yn cael ei gyrraedd yn Cyd-Bwyllgor yma.

a) Cyhoeddi datganiad i'r wasg a'r cylchlythyrau Aelodau a rhanddeiliaid yn cyhoeddi'r penderfyniad ffordd / rheilffordd ar ddydd Llun 19 Mawrth. Y datganiad a'r cylchlythyrau i gynnwys amlinelliad byr o ganlyniadau'r cwestiwn rheilffordd yn unig o'r broses ymgynghori ac arolwg dros y ffôn. Gall agweddau pellach ar yr ymgynghoriad gael cyhoeddusrwydd yn ystod yr haf fel rhan o'r trafodaethau ehangach.

b) Cyhoeddi datganiad i'r wasg a'r cylchlythyrau Aelodau a rhanddeiliaid yn cyhoeddi'r penderfyniad ffordd / rheilffordd ar ddydd Llun 19 Mawrth Y datganiad a'r cylchlythyrau i gynnwys adroddiad llawn o ganlyniadau'r ymgynghoriad.

c) Cyhoeddi'r penderfyniad ffordd / rheilffordd fel rhan o ddatganiad i'r wasg ehangach ym mis Gorffennaf 2012 a fydd yn cyhoeddi'r ddau gynigydd sy'n symud ymlaen yn y broses gaffael a'r safle a thechnoleg a gynigiwyd. Dylid nodi bod yr opsiwn hwn yn gadael bwlch cyn yr etholiad lle nad yw'r prosiect yn gallu darparu unrhyw ddiweddariadau i'r cyfryngau i wrthsefyll adroddiadau negyddol yn y wasg yn ardal Sir y Fflint. Gallai hyn gael ei wrthweithio i ryw raddau trwy gyhoeddi canlyniadau'r ymgynghoriad yn unig cyn y purdah a gadael y cyhoeddiad ynghylch y penderfyniad ffordd / rheilffordd tan fis Gorffennaf 2012.

3.2.4. Opsiwn ffafriol y Bwrdd Prosiect oedd opsiwn c, ond nodwyd y dylai'r tim prosiect fod yn barod i ateb unrhyw ymholiad gan yr wasg yn glir os gysylltir a'r wasg gyda'r prosiect.

## 4. ARGYMHELLION

4.1. I nodi cynnwys yr adroddiad diweddaru hwn.

4.2. I nodi'r dull ffafriol ar gyfer cyhoeddi'r benderfyniad ffordd/ rheilffordd.

## 5. GOBLYGIADAU ARIANNOL

5.1 Amherthnasol

## 6. EFFAITH GWRTH DLODI

6.1 Amherthnasol

## 7. EFFAITH AMGYLCHEDDOL

7.1. Amherthnasol

## 8. EFFAITH CYDRADDOLDEB

8.1 Amherthnasol

## 9. GOBLYGIADAU PERSONÉL

9.1 Amherthnasol

## 10. ANGEN YMGYNGHORIAD

10.1 Gweler uchod

## 11. YMGYNGHORIAD WEDI'I GYNNAL

11.1 Amherthnasol

**DEDDF LLYWODRAETH LEOL MYNEDIAD AT WYBODAETH 1985**

**Dogfennau cefndir:**

Dim

**Swyddog Cyswllt:** Steffan Owen – Rheolwr Prosiect NWRWTP

## Atodiad 2- Sylw ar wefan Newyddion BBC Wales



BBC News - Connah's Quay opposition to incinerator option for waste - Windows Internet Explorer provided by Flintshire County C

http://www.bbc.co.uk/news/uk-wales-north-east-wales-17154562

NEWS NORTH EAST WALES

Home | World | UK | England | N. Ireland | Scotland | Wales | Business | Politics | Health | Education | Sci/Environment | Technology | Entertainment & Arts

Wales Politics | North West | North East | Mid | South West | South East | Newyddion

28 February 2012 Last updated at 07:48

# Connah's Quay opposition to incinerator option for waste

**A town council has written to community leaders elsewhere raising concerns about an £800m waste scheme which could see an incinerator built in Flintshire.**

The project is expected to cost up to £800m over its 25-year lifetime

Preferred bidders are drawing up proposals about how to process 150,000 tonnes a year of non-recyclable waste generated by people in north Wales.

There is concern an energy-from-waste incinerator could be an option with land in Deeside suggested as a site.

Officials behind the project say no decisions have been made yet.

However, land at Anglesey has since been ruled out.

Over 5,000 people have signed Connah's Quay Town Council's petition opposing incineration plans and calling for "greener methods of disposal".

Connah's Quay Town Council clerk Ian Jones has now written to other town and community councils in surrounding areas raising health and environmental concerns with using incineration as a method for processing the waste.

Officials behind the project have invited three preferred bidders to draw up plans for processing plants to deal with waste currently put into landfill.

They are able to propose their own site.

**Related Stories**

Hope for 400 jobs on metals site

£800m waste plant talks start

Next phase in £800m waste project

Although no firm proposals have

**Top Stories**

Occupy London protesters evicted

Barclays to pay £500m avoided tax

UN rights council meets on Syria NEW

Sleeping pills pose 'death risk'

Police rape approach criticised

**Features & Analysis**

Getting animated: Why British cartoon characters could be an endangered species

Credit Due?: What are credit rating agencies? Hugh Pym takes a look.

Is 'quick fit' fitter?: Can three minutes of intense exercise a week make you fit?

1930s or 2000s?: Is Greece's the longest recession in history?

**Most Popular**

Shared | Read | Video/Audio

**EITEM AGENDA RHIF: 8**

| | |
|---|---|
| **ADRODDIAD I:** | **CYDBWYLLGOR NWRWTP** |
| **DYDDIAD:** | **16 MAWRTH 2012** |
| **ADRODDIAD GAN:** | **Y CYFARWYDDWR PROSIECT** |
| **PWNC:** | **CANLLAWIAU HIERARCHAETH WASTRAFF NEWYDD** |

## 1. PWRPAS YR ADRODDIAD

1.1. I ddiweddaru'r Cyd-bwyllgor ar ganllawiau hierarchaeth gwastraff newydd Llywodraeth Cymru.

## 2. CEFNDIR

2.1. Bydd y Cydbwyllgor yn ymwybodol o'r term 'Hierarchaeth Wastraff' a sut mae wedi cael ei ddefnyddio ers nifer o flynyddoedd i ddiffinio trefn restrol blaenoriaeth ar gyfer rheoli gwastraff. Mae'r tri 'Rs' (lleihau, ailddefnyddio ac ailgylchu, neu yn Saesneg: reduce, re-use and recycle) wedi cael eu defnyddio fel slogan gan awdurdodau lleol ers nifer o flynyddoedd fel ffordd o weithredu'r Hierarchaeth Wastraff yn ymarferol. Bu gwaredu terfynol i safleoedd tirlenwi bob amser ar waelod yr Hierarchaeth Gwastraff.

2.2. Ym mis Ionawr 2012, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru (LIC) ddogfen newydd o'r enw "Canllawiau ar ddefnyddio'r Hierarchaeth Gwastraff", sy'n rhoi manylion pellach ar sut y dylai'r Hierarchaeth Wastraff gael ei defnyddio yng Nghymru. Yn benodol, ceir arweiniad ar ble mae gwahanol dechnolegau trin gwastraff gweddilliol yn gorwedd o fewn yr Hierarchaeth Wastraff, a fydd o ddiddordeb i Brosiect Trin Gwastraff Gweddilliol Gogledd Cymru (PTGGGC). Bydd yr adroddiad hwn yn crynhoi pwyntiau allweddol y canllawiau hierarchaeth gwastraff newydd hyn.

## 3. CRYNODEB O'R CANLLAWIAU NEWYDD AR YR HIERARCHAETH WASTRAFF

3.1. Mae canllawiau Hierarchaeth Wastraff wedi'u diweddaru LIC wedi eu crynhoi yn **Atodiad 1** yr adroddiad hwn.

3.2. Mae'r canllawiau hefyd yn ystyried eitemau gwastraff cyffredin (e.e. papur a chardiau, bwyd, plastig a gwastraff 'bag du' gweddilliol ayb.) ac mae'n pennu, yn ôl eu trefn, sut y dylai'r categorïau gwastraff arbennig hyn gael eu rheoli. O bwys arbennig i'r PTGGGC yw'r canllaw a roddir gan LIC ar sut y dylai gwastraff 'bag du' gweddilliol gael ei reoli yn y dyfodol (fel y nodir yn **Atodiad 2** yr adroddiad hwn).

## 4. GOBLYGIADAU ALLWEDDOL YR HIERARCHAETH WASTRAFF I PTGGGC

4.1. Bydd y Cydbwyllgor yn ymwybodol bod yr holl awdurdodau lleol partner wedi ymrwymo i gyrraedd cyfraddau uchel iawn o ailddefnyddio, ailgylchu, compostio a dargyfeirio i dirlenwi er mwyn bodloni targedau statudol LIC. Dylid nodi felly bod gan bob awdurdod partner lleol ddyletswydd i sicrhau bod y targedau hyn yn cael eu cwrdd drwy weithredu eu cynlluniau gweithredu lleol eu hunain i sicrhau cydymffurfio. Mae hyn yn adlewyrchu gofynion y canllawiau hierarchaeth wastraff newydd ar gyfer categorïau gwastraff unigol (e.e. papur a chardiau, bwyd, pren a gwydr ayb), lle mai atal gwastraff, ailddefnyddio, ailgylchu a chompostio ayb yw'r dulliau gorau o reoli gwahanol ddeunyddiau. Fodd bynnag, hyd yn oed ar ôl cyrraedd cyfraddau uchel iawn o ailddefnyddio, ailgylchu a chompostio, bydd bob amser ganran o wastraff 'bag du' gweddilliol a fydd yn gorfod cael ei drin ymhellach mewn rhyw ffordd.

4.2. Mae canllawiau hierarchaeth wastraff newydd LIC wedi darparu trefn restrol fanwl o flaenoriaethau, gan esbonio sut y dylai gwastraff gweddilliol gael ei reoli yng Nghymru yn y dyfodol (fel y dangosir yn Atodiad 2). Yn dilyn atal gwastraff gweddilliol, dylid nodi o’r Hierarchaeth Wastraff mai technoleg ddewisol LIC i drin y deunydd hwn yn rhyw fath o Ynni o Wastraff (EfW) gydag adennill/ ailgylchu Lludw Gwaelodol y Llosgydd. Mae mathau eraill o drin gwastraff megis triniaeth fiolegol fecanyddol a thriniaeth wres fecanyddol yn llai dymunol ac yn ymddangos yn is i lawr ar yr Hierarchaeth Wastraff.

4.3. Fel y nodwyd eisoes, mae'r PTGGGC yn niwtral o ran technoleg, sy'n golygu nad oes ganddo opsiwn a ffefrir ynghylch sut yr ymdrinnir â gwastraff gweddilliol, cyn belled â bod yr allbynnau gwasanaeth allweddol a nodir gan LIC yn cael eu cwrdd. Mae wedi bod yn fater, felly, i’r tri chynigydd sy'n weddill benderfynu pa dechnoleg fyddai’n bodloni orau ofynion NWRWTP. Mae'r atebion technoleg sy’n cael eu datblygu gan gynigwyr yn debygol o berfformio'n dda o ran dangos cysondeb â'r hierarchaeth wastraff, fel y caiff ei nodi yn nogfen LIC sydd newydd ei chyhoeddi.

## 5. ARGYMHELLION

5.1. I nodi cynnwys yr adroddiad hwn.

## 6. GOBLYGIADAU ARIANNOL

6.1. Amherthnasol.

## 7. EFFAITH GWRTH DLODI

7.1. Amherthnasol.

## 8. EFFAITH AMGYLCHEDDOL

8.1. Amherthnasol.

## 9. EFFAITH CYDRADDOLDEB

9.1. Amherthnasol .

## 10. GOBLYGIADAU PERSONÉL

10.1. Amherthnasol.

## 11. ANGEN YMGYNGHORIAD

11.1. Amherthnasol.

## 12. YMGYNGHORIAD WEDI'I GYNNAL

12.1. Amherthnasol.

**DEDDF LLYWODRAETH LEOL (MYNEDIAD AT WYBODAETH) 1985**

**Dogfennau cefndir:**

Dim

**Swyddog Cyswllt:** Stephen Penny NWRWTP

# ATODIAD 1

| HIERARCHAETH WASTRAFF (yn ôl canllawiau newydd LlC) | |
|---|---|
| **Atal (blaenoriaeth uchaf)** ↓ | Defnyddio llai o ddeunydd mewn dylunio a gweithgynhyrchu. Cadw cynnyrch am gyfnod hirach; ailddefnyddio (e.e. rhoi rhoddion i elusennau). Defnyddio deunyddiau llai peryglus. |
| **Paratoi i ailddefnyddio** ↓ | Gwirio, glanhau, trwsio, adnewyddu, eitemau cyfan neu rannau sbâr sydd wedi cael eu taflu fel gwastraff er mwyn iddynt gael eu hailddefnyddio. |
| **Ailgylchu** ↓ | Troi gwastraff i mewn i ddeunydd, sylwedd neu gynnyrch newydd. Yn cynnwys treulio anaerobig os yw'r treuliad yn gynnyrch sy'n cwrdd â phrotocolau ansawdd i'w ddefnyddio fel gwrtaith neu gyflyrydd pridd. Yn cynnwys compostio os yw'n bodloni'r protocolau ansawdd i'w ddefnyddio fel gwrtaith neu gyflyrydd pridd. |
| **Adennill arall** ↓ | Yn cynnwys treulio anaerobig lle nad yw'r treuliad yn bodloni protocolau ansawdd; taenu ar dir a pheth ôl-lenwi. Gall gynnwys: llosgi gydag adennill ynni, nwyeiddio a phyrolysis sy'n cynhyrchu ynni (tanwydd, gwres a phŵer) a deunyddiau o wastraff. |
| **Gwaredu (blaenoriaeth isaf)** | Tirlenwi a llosgi heb adennill ynni |

## ATODIAD 2

| **'Bag du' gweddilliol (trefn restrol canllawiau'r hierarchaeth wastraff)** |
|---|
| Atal (<u>blaenoriaeth uchaf</u>) |
| EfW ar uchafswm effeithlonrwydd proses (gwres yn unig) gydag adennill / ailgylchu IBA |
| Llosgi Swmp EfW ar >60% o effeithlonrwydd a nwyeiddio neu byrolysis ar >50% o effeithlonrwydd gydag adennill / ailgylchu IBA |
| Llosgi Swmp EfW nwyeiddio neu byrolysis ar >30% a <50% o effeithlonrwydd wrth ailgylchu lludw |
| MBT/MHT gyda RDF i effeithlonrwydd uchel o EfW |
| Adennill Ynni♦ (Trydan yn unig) gydag ailgylchu IBA |
| MBT gyda AD/IVC a CLO i dirlenwi*/ MBT gyda RDF i safleoedd EfW sy'n gweithredu ffurf trydan yn unig |
| Gwaredu (<u>blaenoriaeth isaf</u>) |

FLINTSHIRE COUNTY COUNCIL

EXEMPT INFORMATION SHEET

---

COMMITTEE: North Wales Residual Waste Joint Committee

DATE: 16 March 2012

AGENDA ITEM NO: 9

REPORT OF: Stephen Penny – Project Director

---

SUBJECT: Outcome of Road – Rail Assessment

---

The Report on this item is NOT FOR PUBLICATION because of exempt information in accordance with the following section(s) or paragraph(s) of Schedule 12A of the Local Government Act 1972:

| | Para | |
|---|---|---|
| Information relating to a particular individual * | 12 | [ ] |
| Information likely to reveal the identity of an individual * | 13 | [ ] |
| Information relating to financial/business affairs of a particular person * See Note 1 | 14 | [ √ ] |
| Information relating to consultations/negotiations on labour relations matter * | 15 | [ ] |
| Legal professional privilege | 16 | [ ] |
| Information revealing the authority proposes to: | | |
| (a) give a statutory notice or<br>(b) make a statutory order/direction * | 17 | [ ] |
| Information on prevention/investigation/prosecution of crime * | 18 | [ ] |
| For Standards Committee meetings only: | Sec | |
| Information subject to obligations of confidentiality | 18A | [ ] |
| Information relating to national security | 18B | [ ] |
| The deliberations of a Standards Committee in reaching a finding | 18C | [ ] |
| Confidential information which the Council is not permitted to disclose | 100A (3) | [ ] |

**PLEASE TICK APPROPRIATE BOX**

* Means exempt only if the public interest in maintaining the exemption outweighs the public interest in disclosing the information.

Note 1: Information is not exempt under paragraph 14 if such information is required to be registered under Companies Act 1985, the Friendly Societies Acts of 1974 and 1992, the Industrial and Provident Societies Act 1965 to 1978, the Building Societies Act 1986 or the Charities Act 1993.

**SCHEDULE 12A LOCAL GOVERNMENT ACT 1972**
**EXEMPTION FROM DISCLOSURE OF DOCUMENTS**

**REPORT:** Outcome of Road – Rail Assessment

**AUTHOR:** Stephen Penny – Project Director

**MEETING AND DATE OF MEETING:** North Wales Residual Waste Joint Committee – 16 March 2012

I have considered grounds for exemption of information contained in the report referred to above and make the following recommendation to the Proper Officer:-

**Exemptions applying to the report:**
Paragraph 14.

**Factors in favour of disclosure:**
Transparency.

**Prejudice which would result if the information were disclosed:**
Disclosure of the sensitive and commercially privileged information contained in the report could result in breaches of confidentiality and potentially undermine the process.

**My view on the public interest test is as follows:**
The public interest test favours non disclosure at this stage.

**Recommended decision on exemption from disclosure:**
That the report be exempt and the press and public be excluded during the consideration of the item.

**Date:** 8 March 2012

**Signed:** 

**Post:** Team Manager – Committee Services

---

I accept the recommendation made above.

Signed: 
**Proper Officer**

Date: 8 March 2012